OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 1743 (Cy.182)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -	*6 Gorffennaf 2004*
Yn dod i rym	
rheoliadau 1, 2 a 5	*1 Awst 2004*
rheoliadau 3, 4 a 6	*1 Medi 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 214 o Ddeddf Addysg 2002(**1**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2004.

(2) Mae'r rheoliad hwn a rheoliadau 2 a 5 yn dod i rym ar 1 Awst 2004.

(3) Mae rheoliadau 3, 4 a 6 yn dod i rym ar 1 Medi 2004.

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**2**); ac

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002.

(2) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau, yn ôl eu trefn, at adrannau o Ddeddf 2002 a'r Atodlenni iddi.

Llywodraethu ysgolion a gynhelir

3. Yn ystod y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Medi 2004 ac sy'n dod i ben yn union cyn dechrau'r diwrnod y mae'r diffiniad o "maintained school" yn adran 39 yn dod i rym mewn perthynas â

(**1**) 2002 p.32.
(**2**) 1998 p.31.